

**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini  
Corfforaethol a gynhaliwyd yn rhithiol ddydd Mawrth, 22 Medi 2020**

**Yn Bresennol:** Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, A M Jones (Cadeirydd), Richard Owain Jones, Dylan Rees (Is-gadeirydd), Alun Roberts, J A Roberts and Nicola Roberts

**Aelodau Portffolio:** Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuencid, Llyfrgelloedd a Diwylliant), R.G. Parry, OBE, FRAGS (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**Wrth Law:** Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros Dro, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd, Rheolwr Sgwitini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Hefyd yn bresennol:** Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Lleol), Swyddog Sgriwtini (SR)

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Lewis Davies a Bryan Owen

(9:30 am. - 11:00 a.m.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>1 Datganiad o Ddiddordeb</b> Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>2 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20</b> Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro
PENDERFYNIAD	Yn dilyn ystyried yr adroddiad a chynnal trafodaeth lawn ar y materion perthnasl, penderfynodd y Pwyllgor – <ul style="list-style-type: none"> <li>• I dderbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019/20 ar y sail ei fod yn fodlon bod yr adroddiad yn – <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adlewyrchu sefyllfa bresennol y Cyngor o safbwynt y modd y mae'n cyflawni ei Wasanaethau Cymdeithasol;</li> <li>• Yn adlewyrchiad cywir o'i flaenoriaethau gwella o safbwynt y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod; ac</li> <li>• Yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldebau'r Cyngor o ran ei Wasanaethau Cymdeithasol.</li> </ul> </li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Argymell yr Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei gymeradwyo.</li> </ul>
<p>RHIF YR EITEM A'R PWNC</p>	<p><b>3 Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Cymdeithasol</b> Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro</p>
<p>PENDERFYNIAD</p>	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac</li> <li>Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.</li> </ul> <p>GWEITHRED: Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros dro yn adrodd yn ôl i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol gyda manylion y costau lechyd Meddwl uwch yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac i ddiweddarau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.</p>